

Astudiaeth Achos Pori Drwy Stori

Defnyddiodd Ysgol Gynradd Danygraig Fagiau Llyfrau Bwmerang yng nghyd-destun yr ysgol a'r cartref ac fel pont bwysig rhwng y ddau leoliad. Creodd y prosiect gyffro ynglŷn â darllen ymysg y plant, a oedd yn amlwg yn yr ysgol a'r cartref, ac roedd hyd yn oed ddarllenwyr anfoddog yn frwd o blaid y llyfrau ac yn eu mwynhau.



Y dull o weithio

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn nwyrain Abertawe yw Ysgol Gynradd Danygraig. Mae gan yr ysgol ganran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, Defnyddiwyd Bagiau Llyfrau Bwmerang yn ystod tymor y gwanwyn 2015 gan yr athrawes Derbyn, Sian Stokes. Defnyddiodd Sian y llyfrau'n sail i ddysgu yn y dosbarth a hefyd i greu cyffro am ddarllen er pleser yn y cartref. Mae denu rhieni'n nodwedd bwysig o'r egwyddorion sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen ac roedd defnyddio'r llyfrau ar draws lleoliad y cartref a'r ysgol yn ffordd effeithiol o ddenu plant i ymwneud ag addysg eu plant.

Cyflwyno Bagiau Llyfrau Bwmerang

Gwahoddodd Sian rieni a gofalwyr i'r ysgol ar gyfer [cyflwyniad](#) i'r Bagiau Llyfrau Bwmerang. Gan ddefnyddio'r cyflwyniad sydd ar gael ar wefan Pori, cyflwynodd hi'r bagiau llyfrau, gan roi gwybod i deuluoedd fod yr adnodd yn rhan o raglen Pori Drwy Stori ac y byddai'n atgyfnerthu'r dysgu a fyddai'n digwydd hefyd yn y dosbarth yn ystod y tymor. Roedd hyn hefyd yn gyfle i rannu negeseuon allweddol am bwysigrwydd darllen er pleser yn y cartref ac i roi cynghorion i rieni ynghylch sut i gael sbort gyda llyfrau. Dangoswyd adnoddau ar wefan Pori i rieni, megis [fersiynau sain](#) o'r llyfrau.

Integreiddio â Dysgu yn y Dosbarth

Cyn anfon y llyfrau gartref, darllenodd Sian y ddwy stori yn y dosbarth, Yna canolbwyntiodd Sian ar y teitl Saesneg i ddechrau: *Open Very Carefully*, sy'n agor â chrocodeil sy'n ymddangos ynghanol stori'r Hwyaen Fach Hyll, ac yna'n mynd ati i fwyta'i ffordd allan o'r llyfr. Teimlodd Sian fod hyn yn ffordd draddodiadol, oedd yn cyd-fynd yn dda â'u ffocws ar straeon traddodiadol y tymor hwnnw.

Rhoddodd Sian wisg crocodeil yn y gornel ddarllen er mwyn i blant ei gwisgo a chwilio am lyfrau eraill i ymweld â nhw fel crocodeil. Ar Ddiwrnod y Llyfr, gwnaeth y dosbarth nodau llyfra crocodeil, fel yr awgrymwyd yng [nghanllaw i athrawon](#) yr adnodd. Yna aeth y plant ati i guddio'r crocodeil mewn llyfrau eraill yr oedden nhw'n dewis eu darllen. Roedd y plant yn mwynhau trefnu lluniau er mwyn eu helpu i ailadrodd y stori. Defnyddiodd Sian y cyfle hefyd i gyflwyno testunau cysylltiedig, gan ddarllen *The Enormous Crocodile* i'r dosbarth a datblygu deilliannau'r FFLIRh drwy gyflwyno testunau anffuglennol a ffynonellau electronig er mwyn i blant greu eu taflenni gwybodaeth eu hunain am grocodeils.

Ar ôl y Pasg, thema Sian yw Trychfilod, sy'n cyd-fynd â'r llyfr Cymraeg yn y pecyn, *Waldo a'i We Wych*. Ar y cyd â'r Athrawes Fro, mae Sian wedi cynllunio gweithgareddau Cymraeg sy'n cynnwys celf, symud, gwyddoniaeth a helpa gorynnod. Bydd hi hefyd yn defnyddio'r stori i atgyfnerthu pwnc siapau.



Beth yw Bagiau Llyfrau Bwmerang?

Mae Bagiau Llyfrau Bwmerang yn cael eu cyflenwi i ysgolion fel rhan o raglen Pori Drwy Stori i ddenu rhieni a gofalwyr at lythrennedd a rhifedd yn ystod y flwyddyn Derbyn. Bydd pob dosbarth Derbyn yn cael set o fagiau, o leiaf un ar gyfer pob pum plentyn. Bydd y bagiau'n cynnwys dau lyfr stori a llun newydd: un yn Saesneg ac un yn Gymraeg. Dewisir llyfrau am eu bod yn ddeniadol ac yn hwyl i blant a rhieni'u mwynhau gartref, ond hefyd am y gellir greu cyfleoedd dysgu hwyliog ohonynt sy'n cysylltu â'r Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd. Bydd pob plentyn yn mynd â'r bag adref yn ei dro, ac mae hefyd yn derbyn [cylchgrawn](#) i'w gadw. Mae'r cylchgrawn yn llawn o weithgareddau sy'n berthnasol i'r llyfrau ac mae'n modelu dulliau chwareus a rhyngweithiol at ddarllen y gall rhieni a gofalwyr roi cynnig arnynt yn y cartref.



Darpariaeth Barhaus

Pan fydd y ddau lyfr wedi cael eu hanfon adref gyda phob plentyn, bydd Sian yn cadw'r setiau llyfrau ar gael yn hygyrch yn y ddarpariaeth barhaus. Bydd Sian hefyd yn defnyddio'r set llyfrau Saesneg ar gyfer darllen dan arweiniad gyda grwpiau o blant, gan fanteisio ar y ffaith fod ganddi gopïau lluosog o lyfr y mae'r plant yn ei adnabod ac yn ei fwynhau.

Anfon y bagiau adref

Er mwyn cefnogi dysgu yn y dosbarth i'r eithaf, mae Sian yn anfon y Bagiau Llyfrau Bwmerang adref mewn dau gylch: yn gyntaf bydd y llyfr yn mynd adref â'r llyfr Saesneg ynddo, ac yna bydd yn cynnwys y llyfr Cymraeg. Felly, cefnogir gweithgareddau dosbarth-seiliedig gan ddarllen yn y cartref dros ddau dymor.

Mae Sian hefyd yn ychwanegu pyped i bob bag er mwyn annog teuluoedd i chwarae o gwmpas y llyfr a datblygu llafaredd a chwarae rôl. Bydd hi hefyd yn cynnwys tasg chwilota yn ymwneud â chorynnod gyda'r llyfr Cymraeg, gan atgyfnerthu sgiliau a ddatblygwyd yn y dosbarth yn ystod y gweithgaredd darganfod ffeithiau am y crocodeil.

Anfonodd Sian y bagiau adref bob dydd Gwener, gan ofyn am eu dychwelyd ar y dydd lau canlynol. I ddechrau dewisodd anfon y bag at deuluoedd a fyddai'n darparu esiampl dda ac a fyddai'n symbyliad i weddill y dosbarth. Cwblhaodd y plant y darlun ar gefn y cylchgrawn a'i ddychwelyd i'r ysgol a gwnaeth Sian arddangosfa ohonynt mewn lle amlwg er mwyn i rieni eu gweld, a oedd yn creu mwy o gyffro o gwmpas y llyfrau ymysg teuluoedd eraill.

Anfonwyd y llyfrau at blentyn oedd yn absennol o'r ysgol yn ogystal, fel dull o gadw mewn cyswllt.

Canlyniadau

Sylw Sian oedd fod pob plentyn wedi mwynhau *Open Very Carefully*, gan nodi'n arbennig fod y bechgyn yn ei dosbarth oedd yn ddarllenwyr anffodog wedi gwir fwynhau'r llyfr ac yn methu ag aros i fynd ag ef adref. Daeth rhieni i'r dosbarth i siarad â Sian er mwyn dweud cymaint yr oedd eu plant wedi mwynhau darllen y llyfr gartref a chwblhau'r cylchgrawn gweithgareddau ar y cyd, yn wir nododd un rhiant fod ei phlentyn 'yn ei wybod ar ei gof.'

Roedd rhieni a gofalwyr y plant yn nosbarth Sian wedi mwynhau darllen y llyfrau, a nododd sawl un eu bod wedi cael hwyl wrth ddarllen gartref: 'Gallaf ddwyn i gof amser hyfryd wrth i'r 3 ohonom orwedd yn y gwely un noson yn rhannu'r llyfrau. Fe chwarddodd y plant lot fawr.'

Gwnaeth rhieni sylwadau fod rhannu'r llyfrau rhwng y cartref a'r ysgol yn gryfder yn y dull: 'Roedd fy mhlentyn wedi cyffroi am ei fod yn cael dod â'r Bag Llyfrau Bwmerang adref, roedd yn gwneud iddo deimlo'n sbesial'; ac 'roedd hi'n braf gallu eistedd a darllen y straeon gyda'n gilydd a gwybod y gallwn fwydo'n ôl i'r ysgol'.

Roedd teuluoedd hefyd yn gwerthfawrogi ansawdd yr adnoddau, yn llyfrau a chylchgrawn: 'roedd hi'n hyfryd mai llyfrau newydd nad oedden ni wedi'u gweld o'r blaen oedden nhw'; ac 'roedd e wrth ei fodd gyda'r cylchgrawn Gweithgareddau, fe wnaeth e fwynhau defnyddio'r llyfryn ar ei hyd. Byddai e'n aml yn ei estyn ar ei ben ei hun, yn ddigymell.'

Sylwodd Sian hefyd fod rhieni a gofalwyr wedi bod yn holi am ragor o lyfrau a gweithgareddau ers i'r Bagiau Llyfrau Bwmerang fynd adref, ac mewn ymateb uniongyrchol i hynny mae hi'n mynd i ailgyflwyno'r cynllun CAPER [Children and Parents Enjoy Reading] yn ei hysgol. Mae hyn yn golygu y bydd pob plentyn a rhiant yn dewis llyfr stori yn ogystal â llyfr darllen i'w darllen gartref bob wythnos.

Felly mae ysgol Danygraig wedi defnyddio Bagiau Llyfrau Bwmerang fel symbyliad i gefnogi teuluoedd i ddatblygu arferion darllen er pleser yn rheolaidd.

Dewch o hyd i ragor o syniadau ac ysbrydoliaeth yn ein hastudiaethau achos Pori Drwy Stori ychwanegol.